

Prifysgol Bangor
COFNODION PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL

Cyfarfod: 11 Mawrth 2020

Presennol: Yr Athro G Roberts (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr A Jones, Mr W Jones, Dr J Latchford, Dr P Mullins, Dr K Mundy, Mrs R Parry, Miss E Riches, Dr H Roberts, Mrs J Roberts, Mr S Roberts, Prof P Spencer, Mr L Wiegand, Mrs E Parry Williams, Mr T Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Ms M Rowlands, Mr H Ellis, Mrs T Hibbert

Diweddariad ynghylch Covid-19

Cyflwynodd Mrs G Hine, Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith y mae'r Brifysgol yn ei wneud ynghylch ymlediad Covid-19. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Gwaherddir y staff a'r myfyrwyr i gyd rhag teithio dramor ar fusnes y Brifysgol oni bai ei fod yn hanfodol ac wedi'i awdurdodi gan y Deon Coleg perthnasol neu Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.
- ii. Mae'r Pwyllgor Gweithredu wrthi'n rheolaidd yn cloriannu ymateb y Brifysgol i Covid 19.
- iii. Sefydlwyd Gweithgor Tactegol i gefnogi'r Pwyllgor Gweithredu, ac mae hwnnw'n asesu sefyllfa newidiol y Deyrnas Unedig a'r byd a'r cyngor perthnasol. Cymerir camau yn ôl yr angen, gan gynnwys darparu gorsafoedd gel llaw gwrth-facteriol / gwrth-firaol ledled yr ystâd, trwy law'r Gwasanaeth Eiddo a Champws (PACS).
- iv. Datblygwyd Gwefan Covid-19 ac arni mae gwybodaeth i'r staff a'r myfyrwyr. Mae'r Wefan yn cynnwys gwybodaeth am 'hunanyngysu'.

Mynegwyd gwerthfawrogiad am yr adroddiad a'r gwaith. Cadarnhawyd hefyd y byddai staff y Brifysgol, y myfyrwyr ac aelodau'r Cyngor yn cael diweddariadau rheolaidd.

574. Cofnodion

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019.

575. Materion yn Codi

Nodwyd yr eitemau canlynol:

- a) 567 (b) Ystadegau Damweiniau a Salwch yn ystod y Flwyddyn: I'w adrodd o dan Eitem 6 yr Agenda.
- b) 569 Adroddiadau Archwilio/Adolygu: Undeb Trading Cyf: Cynhaliwyd cyfarfod dilynol fis Tachwedd 2019 i drafod canfyddiadau'r archwiliad a'r camau a gymerwyd i'w datrys. Nid oes dim materion o bwys yn weddill.

576. Adroddiadau'r Is-bwyllgorau:

a) Adroddiad Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 24 Chwefror 2020 a nododd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth*: Cynhaliwyd archwiliad o'r 'ffynhonnell ymbelydrol seliedig'. Ni nodwyd dim pryderon.
- ii. *Cyfoeth Naturiol Cymru*: Ymwelodd dau Arolygydd ar 14 Chwefror 2020. Yr unig argymhelliad oedd y dylid gosod clo SALTO (electronig) yn lle system fynediad y bysellbad.
- iii. *Radon*: Yn sgil y newidiadau i'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio a diweddariadau i Fap Radon dangosol yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (HPA) o'r Deyrnas Unedig, cynhaliwyd adolygiad o'r holl fesuriadau radon blaenorol. O ganlyniad, caiff rhagor o fonitorau radon eu gosod mewn nifer fach o adeiladau lle gallai'r lefelau radon gyrraedd y lefel weithredu ddiwygiedig.

Yn ogystal, ar gyngor yr Ymgynghorydd Diogelu Ymbelydredd (RPA), cymerwyd darlleniadau pellach ym mhob Neuadd sy'n eiddo i'r Brifysgol, a gofynnwyd am gadarnhad hefyd gan ddarparwyr Neuaddau 3ydd parti ynghylch y trefniadau i asesu a lliniaru radon sydd ganddynt ar waith ar gyfer y Neuaddau y maent yn eu darparu i Brifysgol Bangor. Cymerir camau pellach gan ddibynnu ar ymateb y darparwyr Neuaddau 3ydd parti ac ar ganlyniadau'r radon.

- iv. *Radiograffeg Wrecsam - Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd*: Penodwyd Mr J Grant yn Oruchwylydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd newydd ac mae'r Rheolau Lleol a'r Asesiad Risg wedi'u diwygio. Nodwyd bod angen eglurhad ynghylch monitro dosimetreg ar famau newydd a beichiog sydd ar leoliad.
- v. Darparwyd crynodeb o waith y Sefydliad Dyfodol Niwclear (NFI), sy'n ymgymryd â synthesis ar raddfa fach i ganfod tanwydd niwclear newydd.
- vi. *Laserau*: Cynhaliwyd ymchwiliad yn sgil hysbysiad o brynu laser Dosbarth 4 o'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (AEE). Amlygodd yr ymchwiliad y gwahaniaethau mawr sydd o ran nodweddion ansawdd a diogelwch eitemau a brynir y tu mewn a'r tu allan i'r AEE. Mae Gweithdrefnau Caffael y Brifysgol wedi eu diwygio ers hynny i gyfyngu ar brynu peiriannau ac offer yn uniongyrchol o'r tu allan i'r AEE.
- vii. *Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)* Adroddwyd bod yr Awdurdod yn genedlaethol yn ymweld â mwy o Brifysgolion, a'u bod yn canolbwyntio ar Asesiadau Risg Ymbelydredd. Wrth baratoi, cadarnheir bod yr holl Reolau Lleol ac Asesiadau Risg ar gyfer gwaith ffynhonnell agored a defnyddio XRFau a phelydrau-X wedi'u hadolygu a'u bod yn addas.

Gofynnwyd i wahodd J Grant i gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Ymbelydredd Iechyd a Diogelwch yn y dyfodol.

b) Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 24 Chwefror 2020. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Penododd yr Is-bwyllgor gadeirydd newydd, sef Mr Merf Williams (Ysgol y Gwyddorau Meddygol), ac mae yntau'n ficro-fiolegydd meddygol profiadol.
- ii. Mae'r holl waith sy'n ymwneud ag Organebau a Addaswyd yn Enetig (GMO) yn perthyn i Ddosbarth I a heb fod yn hysbysadwy. Yr unig eithriad yw'r project Dosbarth II sy'n defnyddio straen E-coli O157 nad yw'n wenwynig. Hysbyswyd yr HSE ynghylch y project

hwnnw a bu'n rhedeg am nifer o flynyddoedd.

- iii. Diweddarwyd pob Asesiad Risg GMO yn 2019. Cynhelir y Pwyllgor Lleol nesaf ar gyfer Addasiadau Genetig fis Rhagfyr 2020 yn unol â'r amllder o 3 blynedd y cytunwyd arno gyda'r HSE.
- iv. Mae cynnig newydd ar gyfer project sy'n defnyddio pysgod o dan adolygiad. Nid oes dim risg i iechyd pobl ac nid yw'r gwaith yn hysbysadwy. Bydd y Swyddfa Gartref yn rhoi manylion y project ar y Gofrestr Gyhoeddus.
- v. Er mwyn sicrhau bod yr arferion gwaith yn unol â chanllawiau'r arferion gorau, cynhelir adolygiad o'r holl Asesiadau Risg sy'n gysylltiedig â gwaith ar y norofeirws.

577. Adroddiad gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod ddwywaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitemau allweddol a ganlyn yn y cyfarfodydd hynny:

- i. *Y Gweithgor Cyhyrsgerbydol*: Cafwyd diweddariad ynghylch gwaith y Grŵp, sydd wedi cyfarfod dair gwaith. Bydd y Grŵp yn parhau i archwilio unrhyw bosibiliadau eraill sydd â'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar y maes hwn.
- ii. *Polisiâu Iechyd a Diogelwch*: Mae nifer o Bolisiâu Iechyd a Diogelwch diwygiedig / wedi'u diweddarau; Cymeradwywyd Rheoli Dirgryniad, Diogelwch Bysiau Mini, Teithiau Tramor, Diogelwch Tân, Rheoli Diogelwch Dŵr, Rheoli Asbestos a Gwaith Maes. Nid yw'r Polisiâu diwygiedig yn cyflwyno dim cyfrifoldebau newydd ac fe'u diwygiwyd yn bennaf i adlewyrchu newidiadau mewn swyddogaethau a dyletswyddau yn strwythur y Gwasanaethau Corfforaethol.
- iii. *Grwpiau Tasg*: Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws (PACS) bellach yn adrodd ar ddiogelwch yr ystadau i bob HSEMTG; hyn yn sgil y newidiadau i'r Grwpiau Tasg.

578. Ystadegau Damweiniau ac Afiechydon dros 6 Mis

Cafwyd adroddiad am gyfnod o 6 mis ynghylch ystadegau damweiniau a digwyddiadau ac afiechydon am y cyfnod 1 Awst 2019 - 31 Ionawr 2020, sydd ychydig yn is na chyfnodau eraill tebyg. Yn fyr:

- a) Damweiniau
 - i. Yn sgil yr un digwyddiad a adroddwyd yn y Pwyllgor blaenorol (toriad yn dilyn baglu o fewn Ystafell Ddarlithio), ni fu dim adroddiadau pellach o dan y Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR). Hyd yma bu 1 adroddiad RIDDOR yn 2019/20.
 - ii. Bu 32 o ddamweiniau a oedd yn ymwneud ag anafiadau, a digwyddodd 21 o'r rheiny i'r Staff a'r Myfyrwyr.
- b) Absenoldeb oherwydd Salwch:
 - i. Collwyd 3,848 o ddiwrnodau gwaith oherwydd absenoldeb salwch y rhoddwyd gwybod amdano, cyfradd o ryw 2.41 diwrnod i bob aelod o'r staff (Cyfwerth ag Amser Llawn - CALI) am 6 mis cyntaf y flwyddyn.
 - ii. Mae'r data fesul pob 1,000 o weithwyr (CALI) yn cyfateb i 392 o achosion a 2413 diwrnod o absenoldeb. Roedd 433 o achosion a 2830 o absenoldebau am yr un

cyfnod yn 18/19.

- c) Cafwyd adroddiad o'r 'digwyddiad achub bywyd' yng nghanolfan chwaraeon y Brifysgol, Canolfan Brailsford. Ar ol i aelod 'gwympto' bu'n rhaid i staff roi triniaeth dadebru cardiopwlmonaidd (CPR), o geg i geg a bu'n rhaid iddynt ddefnyddio'r diffibriliwr, i 'siocio' calon yr unigolyn, a hynny ddwywaith. Aed â'r person i'r ysbyty lle bu wella.

Dywedir bod cymorth gan rai sydd wrth law, trwy roi CPR a defnyddio diffibriliwr, yn cynyddu'r gyfradd oroesi hyd at oddeutu 32%. Ledled y Brifysgol mae 15 diffibriliwr mewn adeiladau, Unedau Diogelwch ac mae yna un ar y cerbyd Diogelwch symudol hefyd. Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig ydynt. Dyma'r trydydd tro i'r staff Chwaraeon achub bywyd un o'r cwsmeriaid. Yn ddiweddar, achubodd staff Diogelwch y Brifysgol fywydau hefyd, un yn aelod o'r cyhoedd a gwmpodd ar safle Ffriddoedd a myfyriwr oedd y mwyaf diweddar.

Nodwyd bod yr Is-Ganghellor wedi canmol y staff dan sylw a dymunai'r Pwyllgor fynegi ei werthfawrogiad hefyd o broffesiynoldeb a dewrder pawb a fu wrthi.

579. Y Diweddaraf am Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ac amrywiol rwymedigaethau statudol, yn rhoi dyletswydd ar y Brifysgol i "ddarparu pob gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau iechyd a diogelwch y staff, y myfyrwyr ac eraill". Nodir yr eitemau a ganlyn er gwybodaeth, y mae nifer ohonynt yn ymwneud â Dangosyddion Perfformiad Allweddol Iechyd a Diogelwch y Brifysgol:

- i. Y Lefel Weithredol Yn 2018 / 19 roedd presenoldeb y staff hynny sydd ar y lefel Weithredol mewn hyfforddiant ar rwymedigaethau a gofynion corfforaethol a phersonol a gofynion deddfwriaethol, fel a ganlyn: Gweithredol 33%, Colegau 33% a Gwasanaethau Proffesiynol 45.43%. Felly, mae cwrs hyfforddi pellach wedi'i drefnu ar gyfer Mai/Mehefin 2020.
- ii. Penaethiaid Ysgolion Datblygwyd sesiwn hyfforddi newydd ar gyfer Penaethiaid Ysgolion a Rheolwyr Colegau a'i darparu i Goleg y Gwyddorau Dynol. Mae'r pecyn hyfforddi ar gael i bob Coleg a maes o law, i'r Gwasanaethau Proffesiynol.
- iii. Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch Bydd Briffiau'r Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch yn cychwyn yn fuan, a bydd digwyddiad hyfforddi fis Mai 2020.
- iv. Rheoli Iechyd a Diogelwch (IOSH): Cynhelir cwrs rheoli iechyd a diogelwch 4 diwrnod y Sefydliad Diogelwch Galwedigaethol ac Iechyd eto at ddiwedd y flwyddyn academaidd. Nodwyd bod y cwrs hwn yn boblogaidd iawn ymhlith staff goruchwylio a'r rheiny sydd â chyfrifoldebau penodol fel cydlynwyr Iechyd a Diogelwch.
- i. Sesiwn Gynefino'r Brifysgol Yn 2018/19 roedd presenoldeb yn 67%, ac yn is na'r targed o 90%. Mae'n anodd cael 'tystiolaeth' o Gynefino'r Staff canolog. Mae'r Cyfarwyddwr AD yn arwain Gweithgor i nodi sut y gellir gwneud gwelliannau o ran cofnodi'r holl hyfforddiant yn ganolog.
- ii. Defnyddwyr Cyfarpar Sgrin Arddangos (cyfrifiaduron) Yn 2018/19 roedd cyfanswm y staff a gwblhaodd hyfforddiant ar Gyfarpar Sgrin Arddangos yn 81%, ychydig yn uwch na'r targed o 80%. Mae'r dangosyddion perfformiad cyfredol yn dangos i 'gydymffurfiaeth' wella ymhellach yn 2019/20 a'i bod yn debygol y cyrhaeddwn y targed o 85%.

- iii. Ymhlith yr enghreifftiau eraill o hyfforddiant a ddarperir gan Iechyd a Diogelwch mae Ymchwilio i Larwm Tân, Gwacáu Pobl sy'n Cael Trafferth Symud yn Ddiogel, Sgyrsiau am Yrfaeodd a Chyflogadwyedd, Sesiynau Cynefino i'r Myfyrwyr, Hyfforddiant Aseswyr Defnyddwyr Cyfrifiaduron, Briffiau Iechyd a Diogelwch Cyfleoedd Myfyrwyr.

580. Unrhyw Fater Arall

- i. Nodwyd bod Cyfarwyddwr y sganiwr MRI ar hyn o bryd yn adolygu'r holl Weithdrefnau Gweithredu Diogel yn sgil newid y canllawiau.

Mae dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch fel a ganlyn:

Dydd Mercher 3 Mehefin 2020, 2pm, Cledwyn 3